## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Gofynnwyd y 11 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 3 + 8 gyda'i gilydd. Tynnwyd cwestiwn 5+7 yn ôl

**.......................................**

## 2.30pm

**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**
Gofynnwyd y cwestiynnau i gyd. Tynnwyd cwestiwn 2 yn ôl. Atebwyd Cwestiwn 7+9 gyda'i gilydd.

**.......................................**

## 2.59pm

## Dadl ar OFCOM - Ni gyflwynwyd cynnig

**Cytunodd y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 1af Mawrth i ohirio Rheolau Sefydlog i drafod y cynnig canlynol -**

**NNDM2321 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn credu bod gan ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg rôl allweddol yng Nghymru heddiw a bod angen ei gynnal a'i gryfhau ar gyfer y dyfodol digidol.

*Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:*
**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod gwasanaeth digidol cynhwysfawr ledled Cymru gyfan pan fydd yr signal analog yn cael ei ddiffodd ac nad oes neb yn cael ei gau allan yn gymdeithasol oherwydd y gost uchel.

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gynrychiolydd o Gymru ar Bwyllgor Gweithredol OFCOM i helpu i sicrhau'r dyfodol digidol gorau i Gymru.

**3. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu y bydd angen edrych yn ofalus ar argymhellion Cam 3 OFCOM a'u diwygio yn ofalus os na fwriedir iddynt gyfaddawdu agweddau ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

**4. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi'r cyfraniad sydd wedi'i wneud gan gynhyrchu ym maes y teledu a ffilmiau at economi Cymru ac yn credu bod rhaid i ddiwygiadau i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus adeiladu ar y llwyddiant hwn.

**5. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod y rôl allweddol y mae S4C wedi'i chwarae o ran teledu cyfrwng Cymraeg yng Nghymru ac yn cydnabod yr angen i ddiogelu, amddiffyn a gwella

darlledu trwy'r Gymraeg.

**6. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod yr angen i gyflwyno sylwadau cryf i OFCOM er mwyn cadw ITV Cymru fywiog sy'n gallu cynhyrchu gwasanaethau newyddion cynhwysfawr a hefyd raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion.

**7. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu y byddai Cyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus dynodedig yng Nghymru o fudd o gofio natur ddatganoledig rhannau helaeth o fywyd cyhoeddus Cymru**.**

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd y Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd y Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O Blaid 16; Ymatal 9; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 7**

**Y cynnig,**
O Blaid 54; Ymatal 0;Yn erbyn 1; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig**

**....................................**

**4.04pm**

***Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gan bleidleisio arnynt ar wahân***

## Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

**NDM2318 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheolau Sefydlog 6.6 a 16.1, yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar gyfer 2003-2004, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 36; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 36
**Derbyniwyd y cynnig**

**....................................**

## Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 16

**NDM2319 Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 37:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd mewn e-bost at Aelodau’r Cynulliad ar 23 Chwefror; a

2. Yn cymeradwyo’r diwygiadau i’r Rheolau Sefydlog a nodir yn yr Adroddiad.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40
**Derbyniwyd y cynnig**

.......................................

**4.22pm**

## Y Ddadl Fer

**NDM2320 Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Y Ddarpariaeth Gofal Plant yng Nghymru

.......................................

Daeth y cyfarfod i ben am 4.51y.h

.......................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 8 Mawrth 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

Cyfarwyddyd Sylweddau Ymbelydrol (Diogelwch Gwladol) (Cymru) 2005 - LD3543

Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005 Memorandwm Cywiriadau - LD3544
The Public Audit (Wales) Act 2004 (Commencement No. 2 and Transitional Provisions and Savings) Order 2005-Regulatory Appraisal - LD3545 *Dim fersiwn Gymraeg ar Gael*
The Products of Animal Origin (Third Country Imports) (Wales) Regulations 2005-Regulatory Appraisal - LD3546 *Dim fersiwn Gymraeg ar Gael*
Cyllideb atodol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2005-2006, 2006-2007 a 2007-2008 - LD3547
Adroddiad y Pwyllgor iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr Adolygiad o'r Rhyng-gysylltiad rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol - LD3548